| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD: | **30 MEHEFIN 2022** |
| TEITL: | **CYFRIFON TERFYNOL 2021/22 – ALLDRO REFENIW** |
| PWRPAS: | **EGLURO A CHRAFFU'R SEFYLLFA ARIANNOL TERFYNOL 2021/22** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn y wybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2021/22, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i Adrannau.** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID** |

---

**1.** Mae'r adroddiad gerbron heddiw, sef yr adolygiad cyllideb "alldro", yn egluro sefyllfa terfynol 2021/22 ac yn dangos y darlun fesul adran. Y ffigyrau yma yw sail i'r datganiadau statudol fydd yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

**2.** Y drefn yn arferol yw ein bod yn cyflwyno'r adroddiad Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i'w graffu. Cyflwynwyd yr adroddiad i gyfarfod 14 Mehefin 2022 o'r Cabinet.

**3.** Nodaf fod rhan 7 ac Atodiad 4 i'r adroddiad yma'n delio hefyd gyda'r adolygiad o gronfeydd y Cyngor.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau y Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**
Adroddiad Cabinet 14 Mehefin